Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

# Grwpiau Ffocws Rhieni 2016/2017

## Crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau'r grwpiau ffocws rhieni - **Tymor y gwanwyn**

Dosbarthiadau meithrin a derbyn - dyddiad y cyfarfod - 7/3/17

1. Cafodd y gweithgareddau a drefnwyd fel rhan o Wythnos y Llyfr ddiweddar yr ysgol eu derbyn yn dda iawn, gyda phawb yn elwa'n fawr o'r profiadau.
2. Roedd y rhieni'n hoffi'r Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi a'r cystadlaethau a gynhaliwyd fel rhan o'r dathliadau;
3. Nododd nifer o'r rhieni nad yw'r athrawon bob amser yn ymateb i'r sylwadau a ysgrifennwyd yn y llyfrau cyswllt cartref/ysgol.
   Bydd mwy o arweiniad ar sut i ddefnyddio'r llyfrau i'w potensial llawn yn cael ei anfon allan yn fuan.
4. Roedd yr wythnos 'Dathlu Sgiliau' a gynhaliwyd ym mis Ionawr i rieni disgyblion y Derbyn yn lwyddiant mawr, gyda rhieni yn nodi cymaint roeddent wedi mwynhau'r cyfle i eistedd gyda'u plant a rhannu yn eu cyflawniadau. Mae wythnos debyg wedi'i threfnu ar gyfer mis Mai.
5. Gofynnodd rhai rhieni a oedd hi'n bosib dechrau'r Clwb Brecwast yn gynt yn y bore.
   Mae'r ysgol wedi ymchwilio i hyn, ond am fod y rhan fwyaf o'r staff sy'n goruchwylio'r disgyblion hynny sy'n mynd i'r Clwb Brecwast yn rhieni i blant ifanc eu hunain, nid yw hyn yn bosib ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn ymateb yn briodol os bydd hyn yn newid.
6. Gan fod disgyblion CA2 yn ymweld â llyfrgell Gorseinon yn fisol, gofynnodd y rhieni a fyddai'n bosib trefnu 'llyfrgell ddosbarth' fach ar gyfer disgyblion meithrin/derbyn nad oes ganddynt lyfrau darllen ar hyn o bryd (sy'n llawn llyfrau y gellir eu darllen gyda rhieni gartref)?
   Byddwn yn ceisio ein gorau i roi system ar waith ar gyfer tymor yr haf.
7. A allai'r ysgol sicrhau bod drysau mynedfa'r disgyblion ar agor ar amser yn y boreau, yn enwedig pan fydd hi'n bwrw?
8. Pryd bydd disgyblion meithrin yn dechrau mynychu gwasanaethau ysgol?
   Yn y gorffennol, mae disgyblion meithrin yn dechrau mynychu ein gwasanaethu yn nhymor yr haf, gan fod ganddynt y gallu i ganolbwyntio am fwy o amser a'r gallu i eistedd yn llonydd am gyfnodau hwy erbyn y pwynt hwn yn y flwyddyn!

9. A all staff sicrhau nad yw'r disgyblion yn chwarae mewn dŵr a baw yn ystod amserau egwyl, am fod y disgyblion yn dod adref yn fudr ac yn wlyb yn aml?
   Mae nifer priodol o staff yn goruchwylio'r disgyblion yn ystod amserau egwyl a chinio. Er bod y staff yn gwneud pob ymdrech i rwystro'r disgyblion rhag gwlychu a throchi, bydd adegau pan fydd hyn yn digwydd, am fod plant yn cael eu dennu i ddŵr a baw yn naturiol.
10. Oes unrhyw bosibilrwydd o gael clwb ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion meithrin a derbyn?
   Mae'r ysgol yn trefnu nifer o glybiau ar ôl ysgol ar hyn o bryd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 1-6, gyda staff yn rhoi o'u hamser i arwain y gweithgareddau hyn am ddim. Byddai darparu clybiau allgyrsiol i ddisgyblion meithrin a derbyn yn gofyn am gymhareb staff/disgyblion fwy, a fyddai'n ei gwneud hi'n anodd iawn i'w trefnu.

<u>Blwyddyn 1 a 2 - dyddiad y cyfarfod - 2/3/17</u>

1. Roedd yna erthygl yn y newyddion yn ddiweddar yn ymwneud ag ysgol yn Lloegr a oedd wedi grwpio'i holl ddiwrnodau HMS i un wythnos er mwyn caniatáu i rieni drefnu gwyliau rhatach. A yw hyn yn bosibilrwydd yn YGG Pontybrenin?
   Mae diwrnodau HMS wedi'i trefnu i ddiwallu anghenion datblygiad proffesiynol parhaus yr ysgol a'r staff, sy'n datblygu wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Byddai rhagfynegi beth yw'r anghenion hynny ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn anodd iawn ac ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol ymateb i'r anghenion hyfforddi a allai godi yn ystod y flwyddyn.
2. Oes modd i'r ysgol fynd yn 'ddi arian' (cashless), gan ddefnyddio system talu electronig a fydd yn caniatáu i rieni dalu am ginio ysgol, tripiau ysgol ayyb o gartref?
   Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu treialu system talu am ginio'n electronig rywbryd yn y flwyddyn nesaf a fyddai am ddim i'r ysgol, ond ar gyfer talu am ginio ysgol yn unig. Mae'r ysgol wedi bod yn ystyried system dalu Parentmail, sydd yn gostus, ond gall fod yn opsiwn ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gofyn i rieni am eu barn am y pwnc yn ystod tymor yr haf, ac os bydd digon o alw i gyfiawnhau treialu system talu electronig, yna byddwn yn gwneud hynny.

3. A allai'r ysgol nodi pa fath o ddillad dylai'r plant wisgo ar deithiau ysgol gwahanol?
   Oni bai fod neges/llythyr Parentmail yn nodi fel arall, dylai'r disgyblion wisgo gwisg ysgol bob amser ar deithiau ac ymweliadau ysgol.

<u>Blwyddyn 3 a 4 - dyddiad y cyfarfod - 1/3/17</u>

1. Pryd bydd disgyblion Blwyddyn 3 yn dechrau eu gwersi nofio eleni?
   Bydd gwersi nofio disgyblion Blwyddyn 3 yn dechrau yn ystod tymor yr haf, ar ôl gwyliau'r Pasg.
2. Roedd y dathliadau ar gyfer y gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer Wythnos Llyfr yn wych, a chafwyd llawer o adborth cadarnhaol.
3. Rhoddwyd adborth tebyg ynghylch Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi, gyda rhieni yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau gwahanol a drefnwyd.
4. Mae clybiau allgyrsiol y tymor hwn wedi bod yn llwyddiant mawr, â chymysgedd da o glybiau i'r disgyblion eu mwynhau.
5. Mae'n debyg bod gwell cysondeb â gwaith cartref y tymor hwn, gyda rhieni'n canmol y system newydd o gyflwyno 'prosiectau' gwaith cartref ar gyfer hanner tymor, sy'n rhoi mwy o annibyniaeth i'r disgyblion gynhyrchu gwaith sy'n adlewyrchu eu cryfderau a'u diddordebau.
6. Mae nifer o rieni yn teimlo bod diffyg llyfrau o safon cynllun darllen ar gyfer Blwyddyn 3 a 4. Oes modd i'r ysgol fuddsoddi mewn llyfrau newydd a/neu'n ystyried apiau darllen?
   Bydd athrawon Blwyddyn 3 a 4 yn cynnal archwiliad i lyfrau'r cynllun darllen sydd ar gael ar hyn o bryd, yn ogystal â'r llyfrau hynny sydd ar goll, ac yn archebu llyfrau newydd o ganlyniad i hyn. Er y byddwn yn parhau i ystyried cael llyfrgell electronig addas/rhaglenni darllen ac yn ystyried buddsoddi ynddynt, ar hyn o bryd, maent yn rhy ddrud.
7. Mae'r gwersi recorder y mae disgyblion Blwyddyn 3 yn eu derbyn yn boblogaidd iawn ymhlith y disgyblion a'r rhieni.
8. Roedd wythnos 'Dathlu fy Ngwaith' a gynhaliwyd ym mis Ionawr yn llwyddiant mawr, gyda rhieni yn nodi cymaint roeddent wedi mwynhau'r cyfle i eistedd gyda'u plant a rhannu eu cyflawniadau. Mae wythnos debyg wedi'i threfnu ar gyfer mis Mai.
9. A allai rhai rhieni dderbyn yr atebion ar gyfer y gwaith cartref yn Saesneg, am fod angen i'r rhieni nad yw'n siaradwyr Cymraeg ddyfalu'r atebion?

Mae'r adborth a roddir ar bob darn o waith wedi ei dargedu at y plant ac nid y rhieni, boed hynny'n waith dosbarth neu'n waith cartref. Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 fel arfer yn rhugl yn y Gymraeg erbyn iddynt gyrraedd yr Iau ac felly dylent allu cyfieithu'r atebion/sylwadau'r athrawon i'w rhieni.

10. Gall fod yn anodd casglu'r plant ar ddiwedd y diwrnod ysgol am fod yr holl ddisgyblion Iau yn gadael yr ysgol drwy'r gât waelod.
    Yn anfoddus, nid oes yna lawer o allanfeydd i'r disgyblion Iau eu defnyddio oherwydd cynllun yr ysgol. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried dulliau eraill, gan gynnwys y posibilrwydd o ryddhau'r plant yn raddol ar ddiwedd y diwrnod ysgol.
11. A allai'r ysgol ddarparu mwy o wybodaeth am Eisteddfod yr Urdd y flwyddyn nesaf i'r rhieni?  Hefyd, oes modd i'r rhieni gofrestru eu plant ar gyfer cystadlaethau'r Urdd, yn hytrach na gofyn i'r disgyblion eu hunain?
    Gallwn roi trosolwg i'r rhieni o'r Eisteddfod a rhestr o'r cystadlaethau sy'n agored i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae angen i'r rheini a'u plant gytuno ar y cyd ar ba weithgareddau y maent yn dewis eu cofrestru ar eu cyfer, gan nad yw perswadio plant amharod i ddysgu eu geiriau a mynychu ymarferion yn ddelfrydol.

<u>Blwyddyn 5 a 6 - dyddiad y cyfarfod - 28/2/17</u>

1. Mae toiledau'r merched Iau yn edrych yn dda, gyda llawer o sylwadau cadarnhaol yn cael eu rhannu amdanynt.
2. Trefnwyd amrywiaeth arbennig o weithgareddau ar gyfer Wythnos y Llyfr, a oedd yn llwyddiant mawr.
3. A fydd yna Glwb Darllen allgyrsiol eleni?
   Nid yw'r amserlen ar gyfer clybiau tymor yr haf wedi'i chwblhau eto. Yn sicr, gallwn ystyried cynnal Clwb Darllen.
4. Croesawyd y cysylltiadau diweddar ag Ysgol Pontybrenin gan nifer o rieni sy'n teimlo y gall disgyblion a'r staff elwa o'r berthynas newydd hon.
5. Pam nad yw disgyblion Blwyddyn 6 yn derbyn gwersi nofio?
   Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwersi nofio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3, 4 a 5 ar hyn o bryd, ac oherwydd pwysau ariannu cynyddol, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwersi nofio i ddisgyblion Blwyddyn 6.
6. Roedd rhieni'n hoffi'r syniad o ymweld â'r llyfrgell lleol yn fisol am ei

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

fod yn caniatáu gwell dewis o lyfrau.

7. Roedd wythnos 'Dathlu fy nghwaith' yn llwyddiannus iawn, gyda rhieni wedi mwynhau'r cyfle i rannu cyflawniadau eu plant. Roedd safon y gwaith a luniwyd gan y disgyblion, yn enwedig y gwaith am y 'Descriptosaurus' yn wych. Mae wythnos debyg wedi'i threfnu ar gyfer mis Mai.

Diolch i bawb unwaith eto am eich holl sylwadau. Byddwn yn ceisio gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon y sonioch amdanynt yn y fforymau rheini hyn a gobeithiwn y byddwch yn sylwi ar y gwelliannau yn y meysydd hyn yn fuan. Fodd bynnag, os rydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â mi yn yr ysgol i drafod y rhain ymhellach.

Bydd y rownd nesaf o gyfarfodydd grwpiau ffocws rhieni yn cael eu cynnal hanner ffordd drwy dymor yr haf.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth